



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Bartneriaeth Caerdydd ar gyfer Addysg Gychwynnol i
Athrawon
Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Campws Cyncoed
Cyncoed Road
Caerdydd
CF23 6XD**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2021 - Gorffennaf 2022

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn â Phartneriaeth Caerdydd ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon

Mae Partneriaeth Caerdydd ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yn cynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd a'i hysgolion partneriaeth addysg gychwynnol i athrawon (AGA), yn cydweithio â Phrifysgol Rhydychen, Prifysgol Caerdydd, Consortiwm Canolbarth y De (CCD), y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA), Partneriaeth ac awdurdodau lleol Powys a Chaerdydd.

Mae'r bartneriaeth yn darparu tair rhaglen AGA. Achredwyd y rhaglenni hyn gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) o fis Medi 2019:

- TAR uwchradd (11-18), gyda llwybrau mewn cerddoriaeth, drama, celf a dylunio, addysg gorfforol, hanes, addysg grefyddol, daearyddiaeth, Cymraeg, Saesneg, ieithoedd tramor modern, mathemateg, bioleg gyda gwyddoniaeth, cemeg gyda gwyddoniaeth, ffiseg gyda gwyddoniaeth, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chyfrifiadura a dylunio a thechnoleg
- TAR cynradd (3-11)
- BA (Anrhydedd) addysg gynradd gyda SAC (3-11)

Mae pob un o'r rhaglenni yn rhai amser llawn ac yn cael eu cynnig yn ddwyieithog. Mae'r rhaglen BA (Anrhydedd) addysg gynradd yn gwrs tair blynedd, a'r rhaglenni TAR cynradd ac uwchradd yn gyrsiau blwyddyn.

Mae 315 o fyfyrwyr yn dilyn y rhaglen BA Cynradd, y mae 47 ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 190 o fyfyrwyr yn dilyn y rhaglen TAR Cynradd, a 43 ohonynt yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 260 o fyfyrwyr yn dilyn y rhaglen TAR Uwchradd, y mae 45 ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r strwythur arweinyddiaeth yn cynnwys bwrdd strategol, grŵp rheoli, pum grŵp llywio a bwrdd cynghori ar ymchwil. Caiff strwythur arwain y bartneriaeth ei oruchwylio gan Uwch Dîm Cynllunio Rheoli (SMPT) Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd (CSESP).

Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda thros 220 o ysgolion ledled de Cymru. Mae llawer o'r ysgolion hyn yn ysgolion 'ymarfer clinigol' sy'n cynorthwyo myfyrwyr â'u profiad ysgol. Mae dau ddeg tri o ysgolion uwchradd a 39 ysgol gynradd yn gweithio fel ysgolion arweiniol, neu mewn grwpiau bach fel cynghreiriau ysgolion arweiniol.

Crynodeb

Mae Partneriaeth Caerdydd wedi'i seilio ar berthnasoedd cydweithredol cryf ac ymdeimlad o gyd-ymdrech. Mae aelodau'r Bartneriaeth yn rhannu gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon, sydd wedi'i gwreiddio mewn blaenoriaethau cenedlaethol gydag ymrwymiad i ddatblygu gweithwyr proffesiynol o safon uchel. Mae uwch arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth gref a sensitif. Ceir strwythur arwain clir sy'n galluogi pob partner i fanteisio ar ei gryfderau a gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol er budd myfyrwyr.

Er gwaethaf yr heriau yn sgil pandemig COVID-19, mae'r bartneriaeth wedi parhau i ddarparu llawer o agweddau ar ei gwaith mewn AGA yn llwyddiannus, yn unol â'i gweledigaeth. Gweithiodd y brifysgol yn greadigol gyda'i hysgolion partner fel bod elfennau o'r rhaglen a addysgir yn cael eu cyflwyno ar-lein, a bu ysgolion yn cynorthwyo myfyrwyr yn dda i'w galluogi i ymgymryd â'u profiadau ysgol yn effeithiol, er mewn ffordd fwy cyfyngedig. Cryfhaodd y bartneriaeth ei phrosesau ar gyfer cefnogi lles myfyrwyr a chadwodd yr ymagweddau hyn yn fuddiol ar ôl y pandemig. Fodd bynnag, roedd y cyfyngiadau'n golygu nad oedd y bartneriaeth yn gallu ymgymryd ag ychydig o brosesau yn unol â'r bwriad, fel sicrhau ansawdd profiad ysgol, ac nid oedd ychydig o agweddau ar y rhaglenni wedi eu cysylltu'n ddigon cydlynus. O ganlyniad, er eu bod wedi bodloni'r safonau ar gyfer statws athro cymwys yn llwyddiannus, nid yw lleiafrif o fyfyrwyr wedi gwella'u cynllunio a'u haddysgu yn yr ysgol cystal ag y gallent.

Mae pob rhaglen yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol, gan gynnwys cyfleoedd i archwilio syniadau yng nghyd-destun yr ysgol, ac archwilio ymagweddau addysgu creadigol gyda'u cyfoedion a staff y bartneriaeth. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid a mentoriaid yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda myfyrwyr ac yn eu cynorthwyo'n bwrpasol i wneud cynnydd da.

Un o nodweddion hynod gadarnhaol y bartneriaeth yw ei fod yn hyrwyddo diwylliant ymchwil cryf, sy'n cael effaith fuddiol ar lawer o agweddau ar ei gwaith. Mae llawer o staff y bartneriaeth yn modelu'n effeithiol sut mae ymchwil ac ymholi yn rhan bwysig o arfer broffesiynol. Ceir cryfderau sylweddol mewn cefnogi cydraddoldeb hiliol a datblygu'r Gymraeg mewn AGA.

Argymhellion

- A1 Gwella medrau myfyrwyr o ran cynllunio gwersi
- A2 Gwella medrau beirniadol myfyrwyr, yn enwedig o ran cysylltu theori ag arfer
- A3 Gwella ansawdd mentora
- A4 Cryfhau parhad a dilyniant profiadau dysgu ym mhob rhaglen

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd y bartneriaeth i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â datblygu'r Gymraeg, a gwaith yr hyrwyddwyr ymchwil, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Safonau

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gwneud cynnydd da yn ystod eu rhaglen. Mae'r rhai sydd ar fin cymhwyso yn bodloni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys (SAC) yn gadarn.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr uwchradd yn meddu ar wybodaeth bwnc gref. Mae lleiafrif ohonynt yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau y tu hwnt i'r pwnc y maent yn hyfforddi i'w addysgu trwy fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd yn yr ysgol a'r brifysgol i weithio mewn meysydd yn gysylltiedig â phwnc. Er enghraifft, mae myfyrwyr wedi elwa ar y cyfle i gynllunio ac addysgu prosiectau trawsgwricwlaidd a gwersi medrau yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon cynradd yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i addysgu ar draws meysydd dysgu yn llwyddiannus.

Trwy elfennau'r rhaglenni a addysgir, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth werthfawr o nodweddion allweddol y Cwricwlwm i Gymru fel y pedwar diben, y meysydd dysgu a phrofiad a'r camau dilyniant. Mae myfyrwyr TAR cynradd ac uwchradd yn datblygu gwybodaeth ddefnyddiol am gynllunio ar draws sectorau a phynciau yn y cwricwlwm trwy brosiect cydweithredol buddiol ar draws sectorau. Mae llawer o fyfyrwyr cynradd yn benodol yn dangos trwy eu tasgau a'u haseiniadau eu bod yn ystyried elfennau o'r cwricwlwm yn feirniadol. Mewn ychydig o achosion, mae dealltwriaeth myfyrwyr o'r cysyniad o gwricwlwm wedi'i yrru gan ddiben wedi'i datblygu'n dda iawn. Fodd bynnag, yn ystod profiad ysgol, mae cynllunio lleiafrif o fyfyrwyr yn adlewyrchu'r camdybiaethau a ddelir gan staff ysgolion am y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft trwy gynllunio i gynnwys y pedwar diben ym mhob gwर्स.

At ei gilydd, yn eu profiadau ysgol, mae llawer o fyfyrwyr yn dangos dealltwriaeth dda o ofynion penodol y dosbarthiadau maent yn eu haddysgu o ran sector, oedran a'r cwricwlwm. Maent yn cynllunio gwersi sydd â chynnwys perthnasol ac yn nodi medrau priodol i ddisgyblion eu datblygu a'u hymarfer. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr uwchradd yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o fanylebau a meini prawf TGAU. Fodd bynnag, mae hyfforddiant lleiafrif o fyfyrwyr i addysgu'r disgyblion ieuengaf yn y sector cynradd yn tueddu i ganolbwyntio gormod ar addysgu grŵp bach o ddisgyblion yn hytrach na chynllunio ac addysgu'n bwrpasol ar gyfer y dosbarth cyfan. Hefyd, mae mentoriaid yn tueddu i fynd i'r afael â'r broblem hon gan ei bod yn adlewyrchu arferion yn yr ysgol leoli.

Mae llawer o fyfyrwyr cynradd a mwyafrif o fyfyrwyr uwchradd yn cynllunio'n greadigol, gan ddylunio profiadau dysgu diddorol a difyr ar gyfer disgyblion. Os yw cynllunio myfyrwyr yn llai dychmygus, mae hyn yn tueddu i fod oherwydd eu bod yn teimlo wedi eu cyfyngu i gynllunio ac addysgu o fewn cynlluniau gwaith yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cynllunio eu gwersi'n ddiwyd ac yn fanwl. Mae llawer ohonynt yn dangos bod ganddynt repertoire eang o strategaethau addysgu ac yn gallu cynllunio gweithgareddau priodol i alluogi dysgu. Mae lleiafrif o fyfyrwyr yn gweithio'n eithriadol o galed i greu a dod o hyd i adnoddau dysgu dychmygus sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol. Mae llawer o fyfyrwyr yn cynllunio ystod addas o strategaethau asesu.

Er bod myfyrwyr, yn gyffredinol, yn cynllunio gwersi trefnus sy'n ennyn diddordeb disgyblion, nid yw mwyafrif o fyfyrwyr bob amser yn nodi bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant sy'n ddigon penodol. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i asesu cynnydd disgyblion yn gywir ac yn golygu bod eu rhyngweithio â disgyblion yn yr ystafell ddosbarth yn tueddu i ganolbwyntio ar gael disgyblion i weithio'n ddiwyd, yn hytrach na dyfnhau eu dysgu.

Mae llawer o fyfyrwyr yn gydwybodol o ran gweithio â'u mentoriaid i ddod i adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn cynllunio gan ystyried anghenion disgyblion unigol ac yn rhoi ystyriaeth addas i'w dysgu blaenorol. Fodd bynnag, er bod llawer o fyfyrwyr yn nodi cyfleoedd i wahaniaethu dysgu ar gyfer disgyblion penodol, nid ydynt bob tro'n cynllunio gwaith a fydd yn diwallu eu hanghenion yn ddigon da.

Yn ystod y rhaglen, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr wedi cynllunio dilyniant o wersi sy'n dangos dealltwriaeth ddigonol o sut i gynllunio ar gyfer dilyniant disgyblion. Mae ychydig o fyfyrwyr cynradd wedi gweithio'n effeithiol gyda staff ysgol i ymgymryd â dylunio'r cwricwlwm, ac mae hyn wedi cryfhau eu dealltwriaeth o asesu a chynnydd mewn cynllunio. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae myfyrwyr yn rhannu eu dosbarthiadau gyda'u mentor neu'n colli gwersi oherwydd strwythur y rhaglen, ac mae hyn yn golygu nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ymestyn medr cynllunio ac addysgu cyfres o wersi yn olynol.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn datblygu eu medrau addysgu yn dda. Mae llawer ohonynt yn arddangos presenoldeb hyderus a chadarnhaol yn eu hystafelloedd dosbarth. Maent yn rheoli disgyblion, adnoddau a gofodau mewn ffordd sicr. Defnyddiant bolisi ymddygiad yr ysgol yn effeithiol i reoli eu dosbarthiadau.

Mae llawer o fyfyrwyr yn rhyngweithio'n dda â disgyblion yn yr ystafell ddosbarth, gan annog ymgysylltu a gwirio cynnydd. Fodd bynnag, mae lleiafrif o fyfyrwyr yn gweld ei bod yn heriol cynnal ymgysylltiad disgyblion, ac yn camfarnu cyflymdra'r dysgu sy'n ofynnol. Maent yn symud naill ai'n rhy gyflym neu'n rhy araf trwy weithgareddau a gynlluniwyd.

Mae llawer o fyfyrwyr yn cyfathrebu'n glir ac yn bwrpasol yn yr ystafell ddosbarth. Defnyddiant foddelu ac enghreifftiau yn dda i esbonio gweithgareddau a rhoi cyfarwyddyd. Mae llawer ohonynt yn dechrau defnyddio holi yn effeithiol. Maent yn dod yn fedrus o ran trefnu trafodaeth ddosbarth. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o fyfyrwyr bob amser yn archwilio ymatebion disgyblion yn ddigon da i fesur eu dealltwriaeth neu ymestyn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn fodolau iaith da ar gyfer eu disgyblion. Maent yn siarad yn hyderus ac yn glir. Defnyddiant derminoleg bwnc yn briodol, ac mae llawer ohonynt yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu geirfa yn gysylltiedig â phwnc y disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gydwybodol ynglŷn ag olrhain eu cynnydd, ac ar y cyfan, mae llawer ohonynt yn ymwybodol o'u cryfderau a'u gwendidau yn eu haddysgu. Wrth drafod cynnydd gyda'u mentoriaid, mae llawer ohonynt yn onest a myfyriol. Fodd bynnag, nid ydynt yn ystyried ansawdd eu cynllunio yn ddigon da. Mae gwerthusiadau llawer o fyfyrwyr o'u gwersi yn aml yn arwynebol, yn ddisgrifiadol ac mae iddynt ddiffyg dadansoddiad. Nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar yr hyn

yr oeddent yn bwriadu i ddisgyblion ei ddysgu, ac nid ydynt yn gwerthuso effeithiolrwydd eu haddysgu trwy ystyried ei effaith ar gynnydd disgyblion. Er bod llawer o fyfyrwyr yn creu cysylltiadau buddiol rhwng theori ac arfer yn eu haseiniadau a'u tasgau, anaml y maent yn cysylltu eu hymchwil, darllen ac arsylwadau o'u harferion ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn meddu ar fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol addas. Maent yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddatblygu'r medrau hyn ymhlith eu disgyblion. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cyfeirio'n addas at ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn eu cynllunio, nid oes gan fwyafrif ohonynt strategaethau digon cadarn i wneud hynny'n effeithiol yn ymarferol. Hefyd, nid yw eu dealltwriaeth o sut i asesu cynnydd disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae llawer o fyfyrwyr o bob lefel cymhwysedd iaith yn gwneud cynnydd da mewn datblygu eu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, er bod llawer o fyfyrwyr cynradd cyfrwng Saesneg yn defnyddio geiriau Cymraeg ac ymadroddion Cymraeg syml yn yr ystafell ddosbarth, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon da o sut i gefnogi cynnydd disgyblion yn y Gymraeg. Yn eu profiadau ysgol, mae'r defnydd o Gymraeg gan fyfyrwyr uwchradd cyfrwng Saesneg yn fwy cyfyngedig. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i arsylwi Cymraeg bob dydd yn eu hysgolion lleoli.

Yn gyffredinol, mae myfyrwyr yn ymgysylltu'n frwdfrydig yn eu sesiynau a addysgir ac yn gwneud cyfraniadau tra ystyriol, yn enwedig pan fydd y sesiynau hyn yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb. Maent yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn myfyrion ystyriol ar eu profiadau ysgol. Mae lleiafrif o fyfyrwyr yn ymgysylltu'n feirniadol â deunyddiau ymchwil ac yn mynegi safbwyntiau clir a pherthnasol ar ymchwil gyhoeddedig. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau, caiff myfyrwyr eu cyfyngu gan ddulliau addysgu, ac nid ydynt yn datblygu eu meddwl beirniadol yn ddigon da.

Yn y diwrnodau hyfforddiant dan arweiniad yr ysgol, mae llawer o fyfyrwyr yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu dealltwriaeth o arferion ystafell ddosbarth ac ysgol gyfan. Maent yn creu cysylltiadau perthnasol â theori addysgol, ac mae lleiafrif o fyfyrwyr yn creu cysylltiadau craff rhwng eu darllen a chyd-destunau bywyd go iawn, er enghraifft wrth drafod 'Hierarchaeth anghenion' Maslow o ran amddifadedd a'u profiadau o ddisgyblion sydd dan anfantais yn sgil tlodi.

Yn eu haseiniadau academaidd, mae myfyrwyr yn ymgysylltu'n dda ag ystod eang o ymchwil addysgol berthnasol. Mae myfyrwyr TAR yn ddyfeisgar a dychmygus wrth nodi ffynonellau defnyddiol i gynorthwyo eu gwaith ysgrifenedig, ac mae llawer ohonynt yn chwilio am erthyglau perthnasol mewn cyfnodolion ac ymchwil ddiweddar i'w dadansoddi ar y cyd â'r testunau mwy hysbys. Mae ychydig o fyfyrwyr yn llunio aseiniadau o safon uchel. Maent yn ysgrifennu'n berswadiol, gan ddod â ffynonellau at ei gilydd yn fedrus i greu dadl gymhellol.

Fodd bynnag, mae lleiafrif o fyfyrwyr yn cael trafferth cyfleu eu syniadau'n glir, yn dibynnu'n ormodol ar ddefnydd anfeirniadol o destunau, ac yn ysgrifennu mewn arddull gymhleth nad yw'n dangos eu ffordd o feddwl yn ddigon da. Mewn cyferbyniad, ar gyfer un aseiniad, mae myfyrwyr yn creu ffeithlun, sy'n dangos bod llawer ohonynt yn gallu cyfosod a gwerthuso gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau

i amlygu'r pwyntiau amlycaf yn effeithiol. Trwy'r aseiniad hwn, mae llawer o fyfyrwyr yn dangos eu bod yn gallu defnyddio ymchwil yn effeithiol i ddod o hyd i atebion i flaenoriaethau bywyd go iawn yn eu hysgolion arweiniol.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn ffurfio perthnasoedd proffesiynol gyda'u mentoriaid a'u tiwtoriaid. Maent yn cydnabod bod eu mentoriaid yn gefnogol i'w lles a'u hiechyd meddwl a bod hyn yn hanfodol i'w datblygiad fel athrawon. Mae llawer o fyfyrwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o systemau cymorth bugeiliol y brifysgol. Maent yn asesu eu lles eu hunain yn fuddiol trwy ffurflenni hunanddatgan wythnosol.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gwybod sut i wneud dewisiadau gwybodus am eu hiechyd meddwl a chorfforol, yn enwedig yn y cyfnod ar ôl y pandemig. Maent yn datblygu dealltwriaeth o sut i sicrhau cydbwysedd rhwng pwysau yn sgil baich gwaith. Er enghraifft, maent yn rhannu eu targedau yn gamau bach hylaw i'w blaenoriaethu.

Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae lleiafrif o fyfyrwyr yn cael trafferth rheoli eu baich gwaith, yn enwedig wrth sicrhau cydbwysedd rhwng gofynion aseiniadau a pharatoi ar gyfer addysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'r brifysgol, ac yn dweud eu bod yn cael eu trin yn deg. Dywed bron pob un ohonynt eu bod yn deall y gweithdrefnau gofynnol o ran amddiffyn a diogelwch plant, ac maent yn glir ynglŷn â beth yw'r rhain. Er enghraifft, mewn gwersi, maent yn atgoffa dysgwyr am reolau diogelwch pwysig, fel trin deunyddiau'n briodol wrth gynnal arbrofion gwyddonol. Maent yn cymhwyso gweithdrefnau'r ysgol yn effeithiol, er enghraifft trwy ofyn am ffurflenni caniatâd rhieni ar gyfer teithiau ac ymweliadau, ac yn mynychu dysgu proffesiynol perthnasol mewn ysgolion, fel hyfforddiant Atal (Prevent). Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ategu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn dda. Maent yn datblygu strategaethau i reoli ymddygiad heriol yn briodol ac yn ddiogel, gan ddilyn cynlluniau dysgu a thargedau bugeiliol disgyblion unigol, lle bo'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i ddatblygu perthnasoedd adeiladol gyda rhanddeiliaid allweddol fel rhieni.

Mae bron pob un o'r myfyrwyr yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'r disgyblion yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio hiwmor yn briodol ac maent yn ddiflino o bositif. Mae llawer o athrawon dan hyfforddiant yn dangos eu bod yn deall y berthynas rhwng lles a dysgu disgyblion. Maent yn dechrau ystyried sut i gynllunio profiadau dysgu gwerthfawr sy'n helpu disgyblion i ystyried materion fel hunaniaeth, teimladau a hyder, er enghraifft wrth ddylunio prosiect ar gyfer disgyblion sy'n symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Mae llawer o fyfyrwyr yn teimlo bod y bartneriaeth yn gwrando ar eu barn, a bod ganddynt ddylanwad dros beth maent yn ei ddysgu, a sut. Er enghraifft, o ganlyniad i adborth gan fyfyrwyr, darparodd y bartneriaeth enghreifftiau o aseiniadau a deunyddiau enghreifftiol, ac estynnwyd cyfnod arsylwi'r profiad ysgol. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn cyfrannu'n gadarnhaol at y penderfyniadau a wna'r bartneriaeth trwy aelodaeth o grwpiau arwain amrywiol, gan gynnwys y grwpiau

llywio a'u bwrdd strategol. Yn yr ysgol, mae llawer o fyfyrwyr yn achub ar gyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft trwy rannu eu harbenigedd â staff mewn meysydd fel cymhwyso technolegau digidol. Maent yn dechrau deall rôl yr athro mewn gwella'r ysgol. Er enghraifft, maent yn archwilio cynllun gwella eu hysgol i nodi ble gallant gefnogi blaenoriaethau yn yr ystafell ddosbarth, ac yn cyflwyno'u syniadau i lywodraethwyr yr ysgol. Mae llawer o fyfyrwyr yn cydweithio'n dda â staff yn yr ysgol i ddechrau arwain agweddau ar ddysgu. Lle bo'n briodol, maent yn cyfrannu at weithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol, fel clybiau chwaraeon a chlybiau digidol. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'u lleoliadau cyfoethogi i gyfrannu at fywyd ehangach yr ysgol, fel cefnogi gweithgareddau pontio.

Mae gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr agwedd broffesiynol gadarnhaol. Maent wedi eu cymell yn dda, ac wedi ymrwymo i'w haddysgu. Dangosant frwdfrydedd am eu dysgu yn yr ysgol ac yn y brifysgol. Mae llawer o fyfyrwyr yn dangos ymrwymiad proffesiynol i ofyn am gyngor ac adborth adeiladol, ei dderbyn a gweithredu yn unol ag ef. Maent yn fodlon i'w camdybiaethau gael eu herio, ac yn awyddus i wella.

Mae llawer o fyfyrwyr yn deall pwysigrwydd ymchwil fel ymrwymiad proffesiynol. Maent yn elwa ar arbenigedd staff yn eu hysgolion arweiniol sy'n modelu arfer yn effeithiol. Maent yn ymgymryd yn frwdfrydig â thasgau ymchwil ac ymholi, yn enwedig pan fydd y rhain wedi cael eu cynnal yn yr ysgol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau a addysgir, nid yw myfyrwyr yn paratoi'n ddigon da, er enghraifft trwy ymgymryd â darllen paratoadol. Hefyd, nid yw ychydig o fyfyrwyr yn sylweddoli'n llawn sut mae tasgau ac aseiniadau academaidd yn cefnogi eu datblygiad fel athrawon.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ddiwyd o ran defnyddio eu portffolios dysgu proffesiynol i fyfyrion ar eu cynnydd. Mae llawer ohonynt yn cofnodi adborth gan eu mentoriaid yn ofalus, gan ystyried sut gallai'r cyngor hwn effeithio ar eu haddysgu. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae myfyrwyr yn datblygu ymagwedd feirniadol at eu myfyrdodau ac yn creu cysylltiadau cydlynus rhwng eu profiadau ysgol a'u darllen yn amrywio.

Mae llawer o fyfyrwyr yn cydnabod manteision cydweithio â'u cymheiriaid ac ymarferwyr eraill. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau fel addysgu tîm a chyd-gynllunio ac yn myfyrio'n ystyriol ar y profiadau hyn. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn parau a grwpiau bach. Maent yn hael â'i gilydd ac yn rhannu syniadau a phrofiadau yn fuddiol.

Er gwaethaf heriau'r pandemig, mae presenoldeb a phrydlondeb llawer o athrawon dan hyfforddiant yn yr ysgol ac yn y brifysgol yn dda.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r cwricwlwm ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yn y bartneriaeth yn datblygu'n dda mewn llawer o ffyrdd, er nad yw wedi'i gynnal yn llawn yn ddirwystr eto yn sgil heriau pandemig COVID-19. Mae'r holl raglenni wedi eu dylunio i alluogi myfyrwyr i gyflawni SAC yn llwyddiannus a bodloni'r gofynion achredu AGA yn briodol.

Mae llawer o fyfyrwyr yn teimlo eu bod yn elwa'n fawr ar eu profiadau ysgol. Mewn llawer o achosion, cânt gymorth ac arweiniad defnyddiol yn ogystal â sesiynau a

phrofiadau buddiol. Mewn rhai achosion, mae'r ddarpariaeth hon yn hynod amrywiol, creadigol a chynhwysfawr. Er enghraifft, mae staff mewn un ysgol yn ystyried mynd â myfyrwyr ar daith o gwmpas y gymuned, yn eu cynnwys wrth gyflwyno gwasanaethau a threfnu digwyddiadau cymunedol neu elusennol, ac yn rhoi profiad iddynt o ddarpariaeth fugeiliol yr ysgol y tu hwnt i gyfnodau dosbarth.

Mae strwythur ac amseriad y cyfnodau a dreulir mewn ysgolion yn creu heriau o ran darparu profiadau addas o barhad dosbarthiadau ar gyfer myfyrwyr, cynllunio ar gyfer dilyniant ac asesu ar gyfer dysgu. Er enghraifft, nid yw myfyrwyr ar y rhaglen TAR yn cael profiad o wythnos lawn mewn ysgol, ac ni chaiff cyfleoedd i fyfyrwyr BA gynllunio ac addysgu yn annibynnol eu hintegreiddio'n ddigon da yn y rhaglen gyfan.

Mae ffocws clir ar ymchwil ac ymholi. Mae'r Bartneriaeth yn darparu cyfleoedd defnyddiol i fyfyrwyr gymhwyso eu gwaith ymchwil ac ymholi i'w haddysgu ymarferol, er enghraifft trwy aseiniadau a thasgau sy'n gofyn i fyfyrwyr ystyried ymchwil yn ymwneud â materion go iawn yn eu hysgolion. Caiff diwrnodau hyfforddiant dan arweiniad yr ysgol eu cynllunio i ychwanegu at brofiad ysgol a darparu lens ymarferol ar y theori a gyflwynir yn ystod y sesiynau prifysgol. Mae myfyrwyr yn gadarnhaol am y diwrnodau hyn, ar y cyfan. Maent yn darparu cyfleoedd iddynt ystyried agweddau pwysig ar arfer broffesiynol fel rheoli ymddygiad a dulliau addysgegol, a sut gellir defnyddio'r rhain yn eu harfer eu hunain.

Mae myfyrwyr yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr sy'n ehangu a chyfoethogi eu profiadau. Mae'r rhain yn cynnwys diwrnodau ar draws sectorau a chyfnodau cyfoethogi ar ddiwedd y flwyddyn lle mae myfyrwyr yn dewis dilyn diddordeb penodol, fel arwain prosiect pontio cynradd / uwchradd.

Yn gyffredinol, mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau sesiynau prifysgol yn benodol i bwnc neu sector. Maent yn ymgysylltu'n arbennig o dda yn y sesiynau wyneb yn wyneb ac yn elwa ar y cyfle i weithio gyda'u cyd-fyfyrwyr, yn rhannu profiadau ac yn trafod materion yn benodol i bwnc neu sector. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r sesiynau hyn yn cynnig darpariaeth ffocysedig ac amserol sy'n helpu myfyrwyr i ddeall sut i fod yn athrawon effeithiol pwnc neu sector penodol. Mae hyn yn eu cynorthwyo'n dda wrth iddynt ddatblygu ar hyd eu taith fel athrawon dan hyfforddiant. Fodd bynnag, mae ansawdd a chynnwys y sesiynau hyn yn amrywio gormod ac nid oes unrhyw gynllun trosfwaol i sicrhau ymdriniaeth â thestunau allweddol ar yr adegau mwyaf priodol ar bob rhaglen. O ganlyniad, nid yw myfyrwyr yn cael profiadau cyfartal ar draws rhaglenni.

Er gwaethaf cryfderau niferus y rhaglenni, at ei gilydd, nid yw'r gwahanol agweddau ar bob rhaglen yn cysylltu â'i gilydd yn ddigon da. Yn ychwanegol, nid yw staff ar draws y bartneriaeth yn cyfathrebu â'i gilydd yn ddigon da ynghylch cynnwys y rhaglenni. O ganlyniad, mae diffyg cydlynid i'r rhaglenni ar adegau, ac nid ydynt yn cefnogi datblygiad medrau addysgegol myfyrwyr cystal ag y gallent. Er enghraifft, nid yw ysgolion ymarfer clinigol bob amser yn ddigon ymwybodol o beth sy'n digwydd ar ddiwrnodau hyfforddiant dan arweiniad yr ysgol neu'r brifysgol, ac felly ni allant gynllunio darpariaeth gyflenwol neu osgoi dyblygu. Yn ychwanegol, ni chaiff agweddau addysgegol pwysig, fel cynllunio gwersi ac addysgeg ar gyfer y disgyblion ieuengaf, eu hystyried yn ddigon manwl na'u holynu'n briodol.

Mae myfyrwyr yn elwa ar gyfleoedd buddiol i archwilio a dysgu am y Cwricwlwm i Gymru trwy ddarpariaeth astudiaethau proffesiynol, adnoddau ar-lein a sesiynau sy'n benodol i bwnc neu sector. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn wybodus am y theori a'r meddylfryd y tu ôl i'r Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, weithiau, atgyfnerthir camdybiaethau ar y rhaglenni, ac mae profiadau myfyrwyr o'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion yn amrywio'n eang.

Mae'r Bartneriaeth yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Chymraeg myfyrwyr trwy adnoddau a sesiynau medrau penodol a ddarperir i'r holl fyfyrwyr. Mae'r rhain yn cwmpasu amrywiaeth o destunau perthnasol. Ceir proses glir ar gyfer nodi'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol, a chynigir darpariaeth fuddiol, dargedig ar eu cyfer. Hefyd, mae'r rhaglenni'n helpu myfyrwyr i ddeall sut gallant gefnogi datblygiad medrau disgyblion trwy eu haddysgu, er bod effeithiolrwydd yr agwedd hon ar y ddarpariaeth yn rhy amrywiol.

Mae'r ddarpariaeth i gefnogi'r Gymraeg yn gryfder. Mae'r Bartneriaeth yn darparu cyrsiau graddedig i wella medrau Cymraeg yr holl fyfyrwyr, ni waeth beth yw eu hyfedredd yn yr iaith. Mae cwrs 'Pontio' yn ddatblygiad arloesol i annog myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n astudio trwy gyfrwng y Saesneg i drosglwyddo i'r sector Cymraeg. Mae tiwtoriaid Cymraeg yn darparu arweiniad a hyfforddiant buddiol i holl diwtoriaid eraill y brifysgol ar y Cwricwlwm Cymreig. Mae hyn yn galluogi tiwtoriaid i ymgorffori agweddau ar gyd-destun ieithyddol, hanesyddol a diwylliannol Cymru yn eu darpariaeth pwnc neu sector eu hunain yn briodol. Mae llawer o fyfyrwyr yn frwdfrydig ac yn gadarnhaol am y ddarpariaeth i'w cynorthwyo â'u medrau Cymraeg, ond mae'r effaith yn parhau i fod yn gyfyngedig o ran eu defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r Bartneriaeth yn gweithio'n greadigol i geisio mynd i'r afael â phroblemau lleol a chenedlaethol â recriwtio yn y sector cyfrwng Cymraeg, ond mae hyn yn parhau'n her.

Ar draws y Bartneriaeth, mae bron pob un o'r tiwtoriaid a'r mentoriaid yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda myfyrwyr, ac yn eu cynorthwyo'n bwrpasol i ddatblygu eu medrau fel athrawon. At ei gilydd, mae tiwtoriaid a mentoriaid yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i fyfyrwyr fyfyrion ar eu harfer ystafell ddosbarth. Mae hyn yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i fyfyrwyr fyfyrion ar eu harfer ystafell ddosbarth. Mae hyn yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu medrau addysgu yn effeithiol, ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y cysylltiadau mae myfyrwyr yn eu gwneud rhwng theori ac arfer.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn sefydlu a chynnal perthnasoedd gweithio gyda myfyrwyr yn ystod eu sesiynau a addysgir yn y brifysgol a phan fyddant ar brofiad ysgol. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn dangos gwybodaeth dda am eu meysydd sy'n benodol i bwnc neu sector ac yn cynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb myfyrwyr ac yn eu cynorthwyo'n briodol i ddatblygu eu dealltwriaeth o addysgu effeithiol. Wrth gynllunio ar gyfer dysgu myfyrwyr, mae llawer o diwtoriaid yn myfyrion ar fannau cychwyn eu myfyrwyr, a'u gwybodaeth a'u medrau o fewn pynciau, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i deilwra deunydd rhaglen yn ôl yr angen. Pan fydd hyn yn fwyaf effeithiol, mae tiwtoriaid yn cydweithio ac yn gweithio'n agos gyda mentoriaid ysgol arweiniol a phartner i gynllunio ac addasu cynnwys ar draws y rhaglen. Mae tiwtoriaid Cymraeg ail iaith, er enghraifft, yn nodi medrau eu myfyrwyr ac yn mireinio cynnwys y rhaglen ar sail anghenion myfyrwyr ac adborth gan ysgolion. Fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid bob amser yn cynllunio'n ddigon da i gefnogi

dealltwriaeth myfyrwyr o nodweddion pwysig cynllunio gwersi'n effeithiol, er enghraifft o ran nodi'r dysgu bwriadedig ar gyfer disgyblion neu gynllunio ar gyfer cynnydd mewn dysgu dros gyfnod.

Mae llawer o diwtoriaid yn cynllunio sesiynau sy'n cynnwys cyfleoedd gwerth chweil i fyfyrwyr fyfyrion ar theori addysgol a materion yn benodol i bwnc, ac yn cysylltu hyn â'u profiadau addysgu ymarferol eu hunain. Pan fydd hyn yn fwyaf effeithiol, mae tiwtoriaid yn hwyluso trafodaeth feirniadol am ymchwil ac yn annog myfyrwyr i gysylltu hyn â'u profiad eu hunain. Mewn ychydig o sesiynau, mae tiwtoriaid yn ymyrryd yn fedrus i fynd i'r afael â chamdybiaethau, ac yn creu cysylltiadau craff rhwng theori ac arfer, sy'n ymestyn dealltwriaeth myfyrwyr o addysgu. Mae lleiafrif o diwtoriaid yn defnyddio amgylcheddau dysgu'n ystyriol i ymgysylltu â myfyrwyr a dyfnhau eu dealltwriaeth o addysgu effeithiol, er enghraifft wrth herio myfyrwyr i greu ystafell ddsbarth sy'n adlewyrchu eu dealltwriaeth o arfer ar gyfer y blynyddoedd ieuengaf yn yr ysgol gynradd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw tiwtoriaid bob amser yn herio meddwl myfyrwyr yn ddigon da nac yn rhoi digon o gyfle iddynt fyfyrion feirniadol ar eu dysgu eu hunain neu ddysgu eu cymheiriaid. O ganlyniad, nid yw tiwtoriaid bob amser yn helpu myfyrwyr i ddatblygu digon o hyder mewn mynegi eu meddwl neu ddyfnhau eu dealltwriaeth o destunau pwysig.

Mae'r Bartneriaeth yn darparu amrywiaeth addas o dasgau ac aseiniadau i helpu myfyrwyr i greu cysylltiadau rhwng theori a'u profiadau yn yr ysgol. Lle mae hyn yn effeithiol, mae myfyrwyr yn datblygu arfer i dargedu blaenoriaethau allweddol o fewn cyd-destun bywyd go iawn eu hysgolion lleoli, er enghraifft aseiniadau sy'n galluogi myfyrwyr i ystyried, gweithredu a myfyrio ar strategaethau i fynd i'r afael â maes blaenoriaeth o fewn cynllun gwella'r ysgol leoli. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn marcio aseiniadau yn unol â meini prawf asesu clir, gan ddefnyddio matrices ar y cyd sy'n cefnogi cysondeb ar draws gwaith myfyrwyr. Mae llawer o diwtoriaid yn darparu adborth ysgrifenedig buddiol sy'n herio meddwl myfyrwyr, yn eu cyfeirio at fwy o ymchwil ac yn helpu myfyrwyr i ddeall yr hyn y maent wedi'i wneud yn dda. Fodd bynnag, mae'r arfer hon yn amrywiol, ac mewn ychydig o achosion, mae adborth tiwtoriaid wedi'i gyfyngu i gamgymeriadau gramadegol sylfaenol ac nid yw'n helpu'r myfyriwr i ddeall sut i wella'i waith. Mewn achosion lle nad yw myfyriwr wedi cyrraedd y safon ofynnol, mae adborth yn aml yn ddefnyddiol a phenodol, yn cynorthwyo'r myfyriwr i wneud cynnydd.

Yn ystod diwrnodau hyfforddiant dan arweiniad yr ysgol, yn gyffredinol, mae uwch fentoriaid yn defnyddio eu harfer ystafell ddsbarth eu hunain yn fuddiol i helpu myfyrwyr i archwilio testunau fel cefnogi lles disgyblion. Lle mae diwrnodau hyfforddiant dan arweiniad yr ysgol yn hynod effeithiol, mae mentoriaid yn datblygu a dyfnhau meddwl myfyrwyr trwy hwyluso trafodaeth effeithiol ar y cysylltiadau rhwng theori ac arfer. Maent yn annog myfyrwyr i wneud cyfeiriadau penodol at y darllen gofynnol ar gyfer y sesiynau, ac yn dangos enghreifftiau o'r modd y mae theori wedi cael effaith ar arfer mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o fentoriaid ddealltwriaeth ddigon manwl o gynnwys y rhaglen i gynorthwyo myfyrwyr i greu cysylltiadau â theori wrth fyfyrion ar eu harfer ystafell ddsbarth.

Mae tiwtoriaid a mentoriaid yn annog myfyrwyr i fyfyrion ar eu harfer yn rheolaidd, ac yn eu cynorthwyo'n dda i ddeall beth sy'n ddisgwyliedig i wneud cynnydd. Mae gan y bartneriaeth systemau addas ar waith i nodi a chynorthwyo'r myfyrwyr hynny nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Mae tiwtoriaid wedi datblygu prosesau

buddiol i fonitro cynnydd a gwaith yr holl fyfyrwyr yn effeithiol gyda mentoriaid ysgol i safoni barnau am gynnydd myfyrwyr. Ar ôl pandemig COVID-19, aildechreuodd y tiwtoriaid gynnal eu hymweliadau wyneb yn wyneb ag ysgolion, a chynnal arsylwadau ar y cyd o fyfyrwyr gyda mentoriaid. Mae tiwtoriaid yn cynnal deialog broffesiynol yn briodol gyda myfyrwyr a mentoriaid i drafod cynnydd myfyrwyr ar draws y safonau gofynnol. Mae'r dull hwn yn datblygu o ran cysondeb a rheoleidd-dra ar draws y bartneriaeth.

Mae bron pob un o'r mentoriaid wedi datblygu perthnasoedd gweithio da gyda myfyrwyr yn ystod eu profiadau ysgol, ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau adborth yn addas i helpu myfyrwyr i wella'u harfer. Mae mwyafrif o fentoriaid yn defnyddio adolygiadau cynnydd yn bwrpasol i ymgymryd â deialog broffesiynol sy'n cynorthwyo myfyrwyr i nodi eu cryfderau a meysydd i'w gwella. Yn aml yn yr adolygiadau hyn, mae mentoriaid yn annog myfyrwyr i fyfyrion ar eu harfer yn ofalus, gan ofyn cwestiynau sy'n herio meddwl myfyrwyr ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth o addysgu effeithiol.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn rhoi adborth rheolaidd ar addysgu myfyrwyr. Maent yn rhoi cymorth ymarferol buddiol i fyfyrwyr, yn enwedig o ran rheolaeth ystafell ddosbarth. Yn yr enghreifftiau gorau, mae mentoriaid yn defnyddio eu gwybodaeth am y rhaglen i deilwra adborth ac yn annog myfyrwyr i fyfyrion ar theori addysgol yn gysylltiedig â'u haddysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw adborth gan fentoriaid yn ennyn y myfyriwr i feddwl yn feirniadol am ei addysgu, ac ansawdd ei gynllunio, yn benodol. Yn rhy aml, caiff adborth llafar ei gyfarwyddo'n ormodol gan fentoriaid, mae'n rhy hael yn ei ganmoliaeth, ac nid yw'n helpu'r myfyriwr i nodi'r meysydd penodol hynny sydd angen eu gwella yn ddigon gofalus.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae pob un o'r rhaglenni'n hyrwyddo gwerthoedd craidd beth mae'n ei olygu i fod yn weithiwr proffesiynol addysgu yn dda. Caiff yr agweddau a'r ymddygiadau hyn eu modelu'n effeithiol mewn llawer o agweddau ar y rhaglen. Yn benodol, mae'r bartneriaeth yn datblygu diwylliant ymchwil cryf, sy'n cael effaith gadarnhaol ar lawer o agweddau ar ei gwaith.

Er gwaethaf cyfyngiadau'r pandemig, mae gwaith yr hyrwyddwyr ymchwil, y diwrnodau hyfforddiant dan arweiniad yr ysgol, sesiynau prifysgol a datblygu model ymarfer clinigol ar gyfer profiad ysgol yn annog myfyrwyr yn llwyddiannus i ymgymryd yn ystyrlon ag ymchwil ac ymholi i ddatblygu eu harfer. Mae llawer o fentoriaid a thiwtoriaid yn modelu arfer effeithiol ac yn dangos yn llwyddiannus sut mae ymchwil ac ymholi yn cael effaith ar eu harferion bob dydd. Fodd bynnag, er bod y rhaglenni'n cael eu cynllunio'n addas i alluogi myfyrwyr i fod yn ymarferwyr myfyriol ac arloesol, nid yw lleiafrif o fentoriaid a thiwtoriaid yn cynorthwyo myfyrwyr yn ddigon da i wreiddio datblygiad eu haddysgu yn eu darllen a'u hymchwil.

Mae rôl yr hyrwyddwr ymchwil yn yr ysgol yn allweddol i ddatblygu dysgu gydol oes myfyrwyr. Mae'r hyrwyddwyr ymchwil yn uwch aelodau staff mewn ysgolion arweiniol sydd wedi cael eu hyfforddi gan y bartneriaeth ynghylch dulliau ymchwil. Mewn llawer o achosion, maent yn darparu modelau rhagorol o arfer broffesiynol. Maent yn darparu cymorth cryf i fyfyrwyr ymgymryd ag ymchwil ac ymholi. Mae llawer ohonynt

yn arwain myfyrwyr tuag at lenyddiaeth berthnasol ac yn eu cynorthwyo'n fedrus i gynnal ymholiadau yn yr ysgol. Mewn lleiafrif o achosion, mae hyrwyddwyr ymchwil wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu proffesiynol ar gyfer staff yn eu hysgolion eu hunain, gan hyrwyddo manteision gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r rhaglenni'n darparu llawer o gyfleoedd defnyddiol i fyfyrwyr gydweithio â'u cyfoedion a gydag ymarferwyr eraill yn yr ysgol. Ceir cyfleoedd addas i fyfyrwyr ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft trwy fod yn gynrychiolwyr myfyrwyr sy'n ymgymryd â rôl weithredol mewn datblygu'r bartneriaeth. Mae rhaglenni'n cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant yn briodol i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain, gan gynnwys datblygu eu medrau personol mewn llythrennedd, rhifedd a'r Gymraeg, a'u cymhwysedd digidol. Ceir llawer o gyfleoedd gwerth chweil i fyfyrwyr gofnodi a myfyrio ar eu profiadau proffesiynol, gan gynnwys adborth gan bobl eraill, ac i nodi eu camau nesaf ar gyfer datblygu.

Mae'r rhaglenni'n cynnwys cyfleoedd buddiol i gefnogi lles myfyrwyr, sy'n cynnwys rheoli baich gwaith ac arweiniad i helpu â dewisiadau am ffordd o fyw. Mae'r bartneriaeth wedi parhau i ddarparu systemau cymorth buddiol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig i gynorthwyo myfyrwyr yn dda, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf bregus. Ceir prosesau buddiol i archwilio lles ar draws y ddarpariaeth. Mae gan y bartneriaeth systemau cryf ar waith i fonitro presenoldeb a pherfformiad myfyrwyr yn y brifysgol ac yn yr ysgol. Mae staff y bartneriaeth yn nodi myfyrwyr sydd angen cymorth yn gyflym, ac fe geir prosesau amserol a chydlynus ar gyfer myfyrwyr unigol sydd angen ymyrraeth a chymorth penodol.

Mae'r bartneriaeth yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Er enghraifft, darperir strategaethau cymorth gwerthfawr ar gyfer myfyrwyr â dyslecsia. Mae'r bartneriaeth yn cyfeirio'n glir at systemau a gwasanaethau cymorth ehangach y brifysgol sydd ar gael i fyfyrwyr. Mae gwasanaethau myfyrwyr yn darparu cymorth cryf ar gyfer y bartneriaeth, a cheir llinell gyfathrebu sefydledig rhwng ysgolion y bartneriaeth a'r gwasanaethau hyn. Ceir cymorth priodol ac unigoliedig ar gyfer myfyrwyr. Mae arweinwyr y bartneriaeth yn cyfarfod ag arweinwyr rhaglen ac ysgolion bob tymor, i fonitro a chynorthwyo athrawon dan hyfforddiant, ac yn addasu mecanweithiau cymorth yn unol â hynny.

Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder. Ceir prosesau cadarn ar gyfer recriwtio diogel i sicrhau addasrwydd myfyrwyr ar gyfer y proffesiwn addysgu. Ceir gofynion rhaglen priodol i wneud yn siŵr fod myfyrwyr yn cael mewnbynnau perthnasol ar amddiffyn plant yn y brifysgol ac yn yr ysgol.

Ceir gwaith gwerthfawr ar lefel strategol i gefnogi datblygiad system addysg wrth-hiliol a gweithlu amrywiol yng Nghymru. Mae'r cynlluniau i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cael eu recriwtio o grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt, i gryfhau elfennau o gymorth lles a datblygu darpariaeth ar gyfer addysgu am wrth-hiliaeth ac amrywiaeth, yn gam pwysig tuag at fynd i'r afael â strategaeth genedlaethol. Mae'r cynllunio hwn wedi cael ei gefnogi'n dda gan brofiad ac arbenigedd amrywiaeth o staff ar draws y bartneriaeth, gan gynnwys y rhai sydd wedi cymryd rhan mewn datblygu ymchwil a pholisi ar lefel genedlaethol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae Partneriaeth Caerdydd wedi'i seilio ar gydweithio ac ymddiriedaeth nodedig rhwng yr holl bartneriaid. Gyda'i gilydd, dangosant uchelgais ac ysgogiad cryf i ddylunio a chyflwyno rhaglenni sy'n rhoi'r dechrau gorau posibl i athrawon sy'n dechrau yn y proffesiwn. Mae pob partner yn cyfrannu'n gadarnhaol. Er enghraifft, mae ysgolion partner arweiniol yn gwerthfawrogi'r ymreolaeth a roddir iddynt o fewn y paramedrau cytûn, ac maent yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod addysg gychwynnol athrawon yn cael ei gwerthfawrogi fel cyfrifoldeb craidd o fewn cymuned eu hysgol. Yn ei thro, mae'r brifysgol yn gwerthfawrogi cyfraniad yr ysgolion arweiniol, ysgolion ymarfer clinigol, consortia rhanbarthol, a rhanddeiliaid eraill yn fawr. Mae'r bartneriaeth gyfan yn uchel ei pharch o fewn y brifysgol ehangach.

Mae uwch arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth gref a sensitif. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r bartneriaeth, ac maent yn enghreifftio'r safonau uchel y maent yn eu disgwyl gan aelodau'r bartneriaeth. Trwy gydweithio cryf rhwng gweithgarwch wedi'i lywio gan ymchwil a gweithgarwch yn canolbwyntio ar arfer, mae uwch arweinwyr yn blaenoriaethu'r cynnydd a wna athrawon dan hyfforddiant tuag at y safonau ar gyfer SAC. Yn ychwanegol, maent wedi rhoi blaenoriaeth uchel i gynorthwyo myfyrwyr yn eu defnydd a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Ategir y bartneriaeth gan weledigaeth glir sy'n cael ei chyfleu'n greadigol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. Caiff y weledigaeth hon ei deall a'i rhannu'n dda gan staff ar draws y bartneriaeth, ac mae'n adlewyrchu blaenoriaethau addysgol cenedlaethol presennol yn glir. Mae gan y bartneriaeth fframwaith cryf o systemau a strwythurau sy'n ddigon hyblyg i sicrhau bod y broses ar gyfer creu athrawon y dyfodol yn addasu wrth i addysg yng Nghymru ddatblygu. Yn ychwanegol, ceir amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau trylwyr, sy'n sicrhau bod agweddau ar ofynion y meini prawf ar gyfer achredu yn parhau i gael eu bodloni. Er enghraifft, ceir llwybrau clir ar gyfer dewis a dad-dewis ysgolion partner ac ymarfer clinigol arweiniol.

Ceir strwythur clir ar gyfer rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid, sydd wedi eu dylunio a'u cydbwysu'n ystyriol. Mae aelodau'r bartneriaeth yn deall eu rolau ac yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi. Mae bron pob un ohonynt yn ymwybodol, ar y cyfan, o rolau a chyfrifoldebau eang pobl eraill yn y bartneriaeth, ac mae hyn yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad cydgysylltiedig. Fodd bynnag, nid yw ychydig o aelodau'r bartneriaeth, yn enwedig rhai ysgolion ymarfer clinigol, yn ymwybodol o'r cyfraniad a wna ysgolion partner arweiniol ar draws ystod lawn profiad y myfyriwr. Yn yr achosion hyn, nid yw ychydig o fyfyrwyr yn cael profiad cwbl integredig. Er enghraifft, nid yw ysgolion ymarfer clinigol bob amser yn adeiladu ar y diwrnodau hyfforddiant dan arweiniad yr ysgol yn ddigon da.

O fewn y bartneriaeth, mae trefniadau llywodraethu trwy'r bwrdd strategol yn effeithiol o ran darparu model atebolrwydd llwyddiannus ar y cyd. Mae aelodaeth y bwrdd yn cynnwys uwch arweinwyr o fewn y brifysgol, cynrychiolwyr o ysgolion partner ac ymarfer clinigol arweiniol, a chynrychiolwyr o bartneriaid allanol fel prifysgolion partner, consortia rhanbarthol, a Chyngor Caerdydd. Trwy gyfathrebu trylwyr a rhannu gwybodaeth o ansawdd da, mae'n herio a chefnogi pob agwedd ar y bartneriaeth yn briodol. Mae prosesau llywodraethu ehangach y brifysgol yn cydnabod gwerth a chyfraniad addysg gychwynnol athrawon o fewn Prifysgol Metropolitan Caerdydd gyfan.

Mae uwch arweinwyr y brifysgol yn gwybod beth yw cryfderau'r bartneriaeth, er enghraifft eu gwaith gyda chydarddoldeb hiliol a datblygu'r Gymraeg, a'u meysydd i'w datblygu. Maent yn cydnabod manteision gweithio mewn partneriaeth ac yn haeddiannol falch o'r arfer gref a ddangosir gan y bartneriaeth. Maent yn awyddus i ddysgu oddi wrth yr Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol, ac yn mabwysiadu'r ymagweddau hyn ar draws y brifysgol.

Mae arweinwyr wedi gwella a symleiddio'r sianeli a'r dulliau cyfathrebu rhwng gwahanol agweddau ar y bartneriaeth. Er enghraifft, maent yn rhannu bwletin wythnosol gyda thiwtoriaid ac uwch fentoriaid y brifysgol i amlygu manylion gweithredol, adnoddau sydd ar gael, ac ymchwil berthnasol. Gwerthfawrogir hyn gan aelodau'r bartneriaeth.

Mae staff y brifysgol yn defnyddio system rheoli data i helpu sicrhau bod y model y maent yn ei gynnig yn gynaliadwy. Er enghraifft, mae'r system yn helpu uwch arweinwyr i groesgyfeirio data cofrestru â'r gymhareb staff a myfyrwyr. O ganlyniad, defnyddiant staff o safon uchel sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad perthnasol i gynnal yr ymrwymiad addysgu, neu maent yn cadarnhau p'un a oes yna agweddau ar strwythur y cwricwlwm nad ydynt yn hyfyw yn ariannol. Yn ychwanegol, mae'r system yn olrhain agweddau fel cymwysiadau, derbyniadau, gwerthuso modiwlau, ffigurau cadw a chysylltiadau proffesiynol. Mae staff y brifysgol ar bob lefel yn defnyddio'r data hwn i ystyried p'un a yw trefniadau yn briodol yn eu meysydd cyfrifoldeb. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio'r data ar gadw myfyrwyr i ddeall symudiadau myfyrwyr, y grwpiau sy'n cael eu heffeithio fwyaf a'r rhesymau pam, ac yn nodi ymyriadau priodol yn llwyddiannus.

Mae gan y bartneriaeth system sicrhau ansawdd glir ar waith, sy'n cael ei deall yn dda gan randdeiliaid. Mae arweinwyr a rheolwyr yn casglu a dadansoddi data rhaglen a safbwyntiau athrawon dan hyfforddiant, tiwtoriaid, arholwyr allanol, ysgolion partneriaeth, penaethiaid ac athrawon newydd gymhwyso yn rheolaidd. Mae'n gwneud hyn yn effeithiol trwy holiaduron, cyfarfodydd staff a mentoriaid, a phwyllgor cynghori ac adroddiadau. Mae arweinwyr rhaglen yn ymateb i adborth gan randdeiliaid ynghylch darpariaeth ac yn gwneud newidiadau parhaus addas i raglenni, fel cynnal diwrnodau hyfforddiant dan arweiniad yr ysgol wyneb yn wyneb yn hytrach nag ar-lein.

Mae'r cysylltiadau rhwng hunanwerthuso'r bartneriaeth a'i chynllunio ar gyfer gwella yn glir, ar y cyfan. Yn yr agweddau a nodwyd o ffynonellau cyfoethog y bartneriaeth o ddadansoddiadau data, gall arweinwyr amlinellu blaenoriaethau addas gyda thargedau cysylltiedig a champau gweithredu arfaethedig. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae canfyddiadau hunanwerthuso yn rhy eang gan nad ydynt yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn ddigonol. Er enghraifft, prin yw'r dystiolaeth uniongyrchol o ansawdd addysgu yn y brifysgol, ac mae gwerthuso arsylwadau sesiynau neu effeithiolrwydd mentoriaid yn gyfyngedig. Mae hyn yn golygu bod y bartneriaeth mewn rhai meysydd yn colli cyfleoedd i nodi targedau clir i'w datblygu neu agweddau a fyddai'n elwa ar ddysgu proffesiynol pellach.

Caiff y cyfrifoldeb am fonitro blaenoriaethau a nodwyd ei ddyrannu'n fuddiol i grwpiau llywio perthnasol. Mae arweinwyr grwpiau llywio yn ystyried bod hon yn agwedd allweddol ar eu rôl, ac yn defnyddio eu cyfarfodydd tîm rheolaidd i fonitro fel mater o drefn p'un a yw camau gweithredu cynlluniedig wedi cael eu cymryd. At ei gilydd,

mae'r gwerthuso gan y grwpiau hyn o ran effeithiolrwydd y gwaith a wnaed a'r cynnydd tuag at dargedau yn llai datblygedig.

Mae'r bartneriaeth yn elwa ar y cyfraniadau a wneir gan y consortia rhanbarthol. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth werthfawr yn cael ei chyfnewid, er enghraifft ynglŷn ag ymagweddau rhanbarthol at flaenoriaethau cenedlaethol. Yn ychwanegol, mae gwybodaeth am y rhaglenni addysg gychwynnol athrawon ar draws y bartneriaeth yn galluogi'r consortia i ddylunio rhaglenni ymsefydlu sy'n adeiladu ar brofiad blaenorol myfyrwyr wrth iddynt ddechrau ar eu gyrfaoedd addysgu.

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi creu diwylliant dysgu proffesiynol cryf sy'n arddel pob agwedd ar y bartneriaeth ac wedi'i gysylltu'n gryf â rheoli perfformiad unigolion. Mae canlyniadau o weithgareddau ymchwil yn llywio datblygiad rhaglenni. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio'n rhithwir yn llwyddiannus, ac yn darparu amrywiaeth eang o ddysgu proffesiynol ar-lein. Mae ysgolion arweiniol yn y bartneriaeth yn gweithio gyda staff y bartneriaeth yn effeithiol, ac wedi ymrwmo i ddatblygu fel sefydliadau dysgu. Mae arweinwyr y bartneriaeth yn cynorthwyo staff ac athrawon dan hyfforddiant o fewn y bartneriaeth i ymgymryd ag ymholi proffesiynol, ac fe gaiff canlyniadau'r rhain eu rhannu ar draws y system.

Ers ei ffurfio, mae'r bartneriaeth wedi nodi bod cysondeb yn ansawdd mentora yn faes i'w wella, er bod gwaith i wella datblygiad a hyfforddiant mentoriaid wedi cael ei effeithio gan y pandemig. Mae model y bartneriaeth ar gyfer hyfforddi a datblygu mentoriaid yn un lle mae uwch fentoriaid yn gyfrifol am ddysgu proffesiynol eu mentoriaid yn yr ysgol. Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi mireinio'i hymagwedd at ddatblygu mentoriaid ac uwch fentoriaid yn unol â chanfyddiadau ymchwil y bartneriaeth ei hun. Mae hyn wedi helpu uwch fentoriaid i ganolbwyntio ar agweddau pwysig ar fentora fel cefnogi medrau beirniadol myfyrwyr a'u hymchwil ac ymholi. Mae'r bartneriaeth yn datblygu cyfres fuddiol o adnoddau dysgu proffesiynol i uwch fentoriaid, ac mae hyn yn helpu ffurfio ymagwedd ar y cyd at fentora ar draws y bartneriaeth. Er bod llawer o fentoriaid yn credu eu bod yn cael arweiniad defnyddiol ac amserol i'w helpu i gyflawni eu rôl yn effeithiol, mae lleiafrif o fentoriaid yn teimlo nad ydynt yn cael digon o amser i fentora eu myfyrwyr yn llwyddiannus. Hefyd, mae ychydig o fentoriaid wedi cael hyfforddiant annigonol ar gyfer eu rôl.

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau effeithiol i nodi anghenion dysgu proffesiynol staff o fewn y bartneriaeth. Gan mwyaf, caiff dysgu proffesiynol perthnasol ei nodi a'i gynnis yn briodol. Yn ychwanegol, mae Partneriaeth Caerdydd yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth o bartneriaid i rannu a datblygu arfer broffesiynol briodol. Er enghraifft, mae eu cydweithio â phrifysgolion eraill yn cynyddu ffocws ac ansawdd gweithgarwch ysgolheigaidd ym mhob rhan o'r bartneriaeth. Mae arweinwyr y bartneriaeth yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn bodloni blaenoriaethau strategol allweddol hefyd, er enghraifft trwy ddarparu cymorth i diwtoriaid ddysgu a gwella'u Cymraeg.

Caiff dysgu proffesiynol ei gyflwyno i ffynonellau domestig a rhyngwladol, a'i dderbyn ganddynt, yn dda. Mae gwerthusiad y bartneriaeth o effaith y cyfleoedd hyn, yr ymgymerir â nhw gan staff, yn gadarnhaol. Yn ychwanegol, caiff y cyfleoedd hyn eu gwerthfawrogi'n fawr a gyda balchder o fewn y bartneriaeth, a thu hwnt.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Yn ystod arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinwyr y bartneriaeth ac addysgwyr athrawon unigol i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag uwch arweinwyr y brifysgol a llywodraethwyr i drafod cymorth y brifysgol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon
- yn cyfarfod ag uwch fentoriaid a mentoriaid am elfennau yn yr ysgol y rhaglen a'u hasesiad o athrawon dan hyfforddiant
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant i drafod eu cynnydd a chael eu safbwyntiau am agweddau amrywiol ar y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr myfyrwyr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau dysgu ac yn cynnal amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi myfyrwyr yn dysgu a gweld staff yn addysgu yn yr ysgol ac yn y brifysgol
- yn arsylwi sampl o fyfyrwyr yn addysgu yn ystod eu profiad ysgol terfynol pan fyddant yn agos at gyflawni Statws Athro Cymwys (SAC)
- yn arsylwi sampl o fentoriaid yn adrodd yn ôl i fyfyrwyr am eu haddysgu
- yn craffu ar aseiniadau, myfyrdodau a chynlluniau gwersi myfyrwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a grwpiau arwain, gwybodaeth am les myfyrwyr, gan gynnwys diogelu myfyrwyr a disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff
- yn dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i fyfyrwyr a'r holiadur i staff ac yn ystyried eu safbwyntiau trwy eu hymatebion i'r holiadur

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 18c Deddf Addysg 1994, a osodwyd trwy baragraff 13 Atodlen 14 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/09/2022